DARGANFOD

Y RHWYDWAITH EGLWYS AGORED

# TALLARN GREEN













## EGLWYS Y SANTES FAIR MAGDALEN

Agorwyd yr eglwys Fictoraidd fechan hon gyntaf ar 22ain Hydref 1873 am gyfanswm o £800 o gostau adeiladu, swm sy'n ymddangos yn go afreal heddiw, fel y £137 a wariwyd ar dŵr y cloc i ddathlu Jiwbilî'r Frenhines Fictoria.

Mae'r eglwys yn gorwedd ar y ffin rhwng Cymru a Swydd Gaer ac mae ganddi nifer o nodweddion trawiadol; yn eu plith mae tŵr y cloc, gwydr lliw hyfryd, bedyddfaen arysgrifedig a phen dwyreiniol crwn.

O'r 22 offeiriad sydd wedi rhannu bywydau pobl y pentref bychan hwn, gwyddai R. S. Thomas sut i wir symud ac ysbrydoli ei gynulleidfa, gan fynd yn ei flaen i ddod yn un o feirdd gorau Cymru. Tallarn Green oedd ei ail eglwys, yn ystod blynyddoedd arswydus y rhyfel o 1942 i 1945.

Prin yw'r enghreifftiau gwell a geir o eglwys wledig Fictoraidd na Tallarn Green, sy'n parhau i weld addoli rheolaidd ar ôl 130 o flynyddoedd. Gellir darganfod gwir hanes yr eglwys blwyf hon ym mywydau ei phobl, yn y gorffennol yn ogystal â'r presennol.

**CYFLEUSTERAU:**

- Parcio y tu allan i'r Eglwys
- Tafarn The Queens Head, Sarn (1/4 milltir o'r Eglwys)

**LLEOEDD I YMWELD Â NHW:**

- Teithiau cerdded lleol
- Chwythwyr gwydr addurnol E&M, The Old Bakery, Sarn (1/4 milltir o'r Eglwys)

Am wybodaeth am fynediad, gweler y dudalen ychwanegol yn y ffolder hwn.

**CYSWLLT: Ffôn:**
01978 292015

**AMSEROEDD AGOR:**
O wawr hyd fachlud